

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

Carmel Llanllechid



Thema ein gwasanaeth Nadolig am 2016 oedd "Gwahoddiad i Barti." Roedd y plant iau yn actio eu bod mewn staffell ddsbarth ac yn canu a dweud am yr hyn yr oeddent wedi ei wneud yn ystod y tymor. Ar ddiwedd y tymor roedd parti i fod meddai eu hathro wrthynt. Daeth y plant lleiaf wedyn i gyflwyno Stori'r Nadolig yn eu dillad lliwgar. Yn yr olygfa olaf, daeth y plant iau yn eu holau gan sôn am y bwyd ardderchog yr oeddent wedi ei fwynhau yn y parti. Gofynnodd un o'r plant "Parti i bwy oedd hwn?" Atebodd y plant i gyd "Parti pen-blwydd Iesu Grist" ac mae lle i bawb drwy'r byd yn y parti." Cafwyd cyfraniad sylweddol gan y bobl ifanc hefyd gan gloi gyda charol Gilmor Griffiths "Nos Ben-blwydd yw hon". Roedd y casgliad i'w roi tuag at y gost o ail-doi ysgoldy Carmel.

Pwy yw Joseff?



Roedd hi'n argyfwng! Er holi yma a thraw, nid oedd Joseff i'w gael yn unman. Nid oedd gan y gweinidog ddim dewis ond gwisgo fyny fel Joseff – a chyfeilio i'r canu run pryd! Ond roedd ganddi un fantais. Roedd ei phenwisg wedi'i phrynu ar y stryd ym Methlehem ei hun oddeutu 4 blynedd yn ôl.

Erbyn meddwl, onid yw hi'n bryd i ni fel oedolion gyflwyno drama'r geni a gwisgo i fyny fel rhai o'r cymeriadau? Gwn fod rhai eglwysi eisoes yn gwneud hynny. Tybed oes yna berygl i blant feddwl mai rhywbeth fel ymweliad Siôn Corn yw stori'r geni ac nad oes angen iddynt gofio na gwneud unrhyw beth gyda Christ ar ôl iddynt gyrraedd tua 9 oed? Beth yw eich barn tybed? Beth am fentro'r Nadolig nesaf?


Glenys Jones

Dewch i Sioe...

Mari Jones Y Bala

Capel Y Tabernacl
Hendywyn

Bore Sul, Chwefror 12
10:30 - 11:30



Addas i blant, pobl ifanc a theuluoedd



Am ddim (Gwneir casgliad). Diod a bisglen i bawb!

Noddyd gan raglen datblygu Undeb yr Annibynwyr

Dalier Sylw!

Blwyddyn Datblygu Medrau 2017-18

A yw hwn yn ddisgrifiad ohonoch chi, neu o rywun yr ydych yn ei adnabod?

18-25 oed; gydag argyhoeddiad Cristnogol; yn awyddus i wneud gwaith Cristnogol; yn gallu cydweithio'n hwylus ag eraill; yn barod i arbrofi a mentro, a dysgu pethau newydd

Dyma'r math un yr hoffem ei (g)weld yn ymuno yn y Cynllun Datblygu Medrau!

Mae'r Cynllun, sy'n weithgarwch ar y cyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Ebeneser Caerdydd ac CWM (Council for World Mission), yn cynnig hyfforddiant a phrofiad i unigolion sy'n awyddus i ddatblygu eu doniau er mwyn medru gwasanaethu yn y cyd-destun Cristnogol.

Mae tymor y Cynllun yn cyfateb i 'flwyddyn gap' gan ei fod yn ymestyn o fis Medi 2017 hyd ddiwedd Mehefin 2018.

Am ychwaneg o fanylion am gynnwys y Cynllun, anfonwch e-bost at undeb@annibynwyr.cymru yn gofyn am gopi o'r daflen, Cynllun Datblygu Medrau.

Os ydych â diddordeb yn y Cynllun, cysylltwch naill ai ag Alun Tudur, aluntudur@btinternet.com neu â Geraint Tudur, geraint@annibynwyr.cymru

150
1867-2017

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 150

Rhif 6

Chwefror 9, 2017

50c.

W, WP, neu William Williams?

Yn ystod mis Chwefror byddwn yn dathlu 300 mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn. Byddwn yn cofio'i gyfraniad ar dudalennau'r Tyst mewn gwahanol ffyrdd yn ystod yr wythnosau nesaf. Yr wythnos hon rydym yn dechrau ar gyflwyniad i fywyd cynnar Williams gan Dr. Eifion Evans, Crosshands.

Yr ydym ni'r Cymry yn hoff o enwau dwbl: David Davies, John Jones, Morris Morris, Tomos Thomas, ac yn y blaen. Beth am William Williams? Daeth hwn i fri yn y ddeunawfed ganrif wrth ychwanegu ato enw'r fferm lle trigai'r gwrthrych-'Pantycelyn'. Digwyddodd hynny oherwydd poblogrwydd ei emynau, dros wyth cant ohonynt. Emynau ydynt sy'n gofiadwy, yn dwymgalon a phwysfawr. Yn wir, yn *Llyfr Emynau* olaf y Methodistiaid digon oedd rhoi 'W' ar waelod yr emyn i ddynodi mai efe a gyfansoddodd y geiriau blaenorol. Bellach yng *Nghaneuon Ffydd* ceir 'William Williams 1717-1791' i osgoi unrhyw awgrym o ragoriaeth neu ffafriaeth. I'r cyfarwydd byddai 'yr hen Bant' neu 'y Pêr ganiedydd' neu hyd yn oed 'W.P.' yn cyfleu agosatrywydd a gwerthfawrogiad ohono. Mae'r teyrngedau i'w gyfraniad i fywyd ein cenedl yn aml: cerflun ohono yn

Neuadd y Ddinas, Caerdydd; Capel Goffa iddo yn Llanymddyfri; ffenestri lliw yn Eglwys Llanfair-ar-y-bryn a chapeli Pentre-tŷ-gwyn a Heol y Crwys, Caerdydd; a chofgolofn ei fedd ym mynwent Llanfair-ar-y-bryn. Ceir bywgraffiadau, llyfrau ac erthyglau di-rif amdano. Pa esgus sydd dros yr anwybodaeth a'r esgeulustod ohono?

'Arhoswch funud', medde chi, 'dwedwch dipyn o'i hanes wrthym, oherwydd fe'i ganwyd tri chan mlynedd yn ôl. Er mai ar fferm Pantycelyn y treuliodd ei fywyd priodasol yn wahanol i'n bywydau prysur ni heddiw byd crefydd oedd ei fywyd ef.' Mae agendor enfawr yn ddiwylliannol, cymdeithasol, ac ysbrydol rhwng ei oes ef a ninnau. Pe fyddai wedi gadael ei ôl mewn cylch Ffermwyr Ifainc, neu wedi dangos athrylith mewn cerddoriaeth fywiog y 'selebs' yn lle mewn emynau- iawn. Ond pregethu a seiadau, ac emynau? Dyna ddisgwyl gormod.'

O'r gorau, dyma roi cynnig arni.

Bywyd Cynnar?

Ganwyd y William Williams hwn mewn



ffermdy o'r enw Cefncoed ym mhlwyf Llanfair-ar-y-bryn gerllaw Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin. Pa ddyfodol oedd i fab fferm y dyddiau hynny? Tipyn o addysg leol, yna dilyn ei dad i drin y tir fyddai patrwm y mwyafrif. Ond yr oedd dylanwadau eraill ar William Williams sy'n haeddu'n sylw. Addolai'r teulu yn hen achos Annibynnol Cefnarthen, oedd ar y pryd yng nghanol dadleuon diwinyddol dwfn ynghylch trefn achubol Duw. A dyna ddylanwad Rhys Pritchard, 'Hen Ficer' y ganrif flaenorol yn Llandingad gerllaw. Trwy'i gyfrol boblogaidd *Cannwyll y Cymry*, cyflwynwyd llu o Gymry, drwy'r penillion syml ac ymarferol, i ganu oedd yn ddiwinyddol iachus ac efengylaidd.

Dewis gyrfa?

A fyddai gwaith y weinidogaeth yn ei ddenu? Neu, beth am yrfa feddygol gan fod 'Meddygon Myddfai' oedd mor enwog am eu sgiliau heb fod nepell o Llanymddyfri, a'r olaf ohonynt ar y pryd yn fethedig ac ar farw? Yr olaf o'r dewisiadau uchod a aeth a'i fryd, ac i ffwrdd a Williams i Lwynllwyd yn Sir Frycheiniog am addysg bwrpasol i'w baratoi ar gyfer ei yrfa. Do, daeth newid ar ei fyd, ond drwy gydol ei fywyd mynnodd y diddordeb meddygol frigo i'r dod wyneb yn ei ddarllen a'i gynnyrch llenyddol. Ceir sôn yn aml yn ei emynau am 'medsw'n', 'clefyd', 'clwyf', a 'iachâd'.

Ond daeth tro ar fyd, a chawn ddilyn rhai agweddau ar y newidiadau rheinyr yr wythnos nesaf.

(I'w Barhau)
Eifion Evans



AT Y GOLYGYDD

Annwyl Olygydd,

Blwyddyn Newydd Dda a chyfarchion oddi wrth aelodau Capel y Lôn, Slough.

“Dyfal donc a dyr y garreg” ydy ein neges flwyddyn newydd ni! Ar ddydd Sul 8fed Ionawr cynhaliwyd ein gwasanaeth cyntaf yn ein cartref newydd wedi misoedd o holi, gofyn cwestiynau a thrio cael atebion.

Roedd yn drist i adael St John's, Stoke Poges Lane, Slough ar ôl bod yno am 35 mlynedd, ond ymlaen a ni tra gallwn!

Dyma gyfeiriad y Capel newydd:

Burnham Methodist Church,
Eastfield Road,
Lent Rise,
BURNHAM.
Bucks.
SL1 7NZ



Byddwn yn dal i fod yn Gapel y Lôn, Slough, er ein bod mewn sir wahanol erbyn hyn. Croeso cynnes i unrhyw rai sydd am ddod atom, ond cysyllter â fi'n gyntaf i gadarnhau dyddiadau'r gwasanaethau.

Rhif ffôn, 01753 851568.

Ffôn symudol 07963646024.

e-bost - glannant.mair@gmail.com

Mair Jones, Ysgrifennydd

Pêr Ganiadau

Gan ein bod eleni yn dathlu trichanmlwyddiant geni'r Pêr Ganiedydd, William Williams, Pantycelyn, yn ystod yr wythnosau nesaf gwahoddwn nifer o ddarllenwyr y Tyst i ddewis eu hoff emyn ganddo gan roi rheswm am eu dewis. Daw'r dewis cyntaf gan Mr. Glyn Williams, Llywydd presennol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Nid tasg hawdd yw dewis fy hoff emyn o waith Pantycelyn o ystyried fod oddeutu naw deg ohonynt yn Caneuon Ffydd. O feddwl am yr holl emynau o'i eiddo, emyn rhif 687 (C.Ff.) ddaw i'r brig i mi sef,



Dal fi Nuw, dal fi i'r lan,
'n enwedig dal fi lle 'rwy' wan;
dal fi yn gryf nes mynd i maes
o'r byd sy'n llawn o bechod cas.

Gwna fi'n gyfoethog ymhob dawn,
gwna fi fel halen peraid iawn,
na fi fel seren olau wiw
'n disgleirio yn y byd 'rwy'n byw.

Dysg im, fy Nuw, dysg im pa fodd
i ddweud a gwneuthur wrth dy fodd;
dysg im ryfela a'r ddraig heb goll,
a dysg im goncro 'mhechod oll.

Tra caffwyf rodio'r ddaear hon
rho dy dangnefedd dan mron;
ac yn y diwedd moes dy law,
i'm dwyn i mewn i'r nefoedd draw.

I mi, mae'r emyn hwn yn syml a didwyll
a dyma sy'n apelio ataf. Dyma emyn sy'n
ein cymell i weddio ac ymbil ar Dduw yn
ein bywydau'r dyddiau hyn. Rhydd
gynnwys yr emyn hyder i droi at Dduw
pan mae temtasiynau'r byd yn denu. I mi,
mae'r emyn yn dangos pwysigrwydd
gweddi ac onid oes mwy o angen, yn y
byd cyfoes, i dderbyn cynhaliaeth Duw.

gweddnewid America. Ef yw Mesia mawr
America, (yn ôl rhai!) ac y mae pobl yn
rhoi eu ffydd ynddo.

Nawr mae Duw yn galw arnom i roi ein
ffydd a'n gobaith ynddo Ef trwy Iesu Grist.
Gall ef gyflawni ei addewidion, y mae Ef
yn cyflawni ei addewidion ac Ef yn unig
sydd yn haeddu ein mawl a'n hufudd-dod.
Rydym wedi ein creu i fyw mewn
perthynas gyda'r Duw byw. Dyma pam y
siaradodd Iesu am drysor ein calonnau.
Beth ydy ein trysor? Duw neu'r byd? Beth
yw'r sylfaen?

“Oherwydd lle mae dy drysor, yno hefyd y
bydd dy galon. (Mat 6:21)

Eilunod – Trysor dy Galon

“Peidiwch casglu trysorau i chi'ch hunain yn y byd yma. Mae gwyfyn a rhwd yn gallu eu difetha, ac mae lladron yn gallu dod â'u dwyn. Casglwch drysorau i chi'ch hunain yn y nefoedd – all gwyfyn a rhwd ddifetha dim byd yno, a does dim lladron yno i ddwyn dim byd. Lle bynnag mae dy drysor di y bydd dy galon di. (Mat 6:19-21)

Ers erioed un o'n problemau mawr fel pobl yw ein bod yn barod iawn i blygu glin i eilunod. Mae pawb ohonom yn beiriant canfod eilunod. (Tarddiad y gair eilun yw “ail lun”, sef copi neu efelychiad o rhywbeth gwreiddiol, fel llungopi. Nid y gwreiddiol mohono ond y mae'n cymryd lle y gwreiddiol.)

Delwau

Wrth glywed y gair eilun tueddwn i feddwl am gerflun mae pobl yn ei addoli fel y cerfluniau carreg ar yr Easter Island. Ond eilun yw unrhywbeth a roddwn yn lle Duw.

Y mae eilun yn mynd â'n bryd, yn tynnu ein sylw, yn cael ein hamser, ein hadnoddau a'n haddoliad. Gall fod yn rhywbeth dilys. Ond pan mae rhywbeth dilys yn mynd

a'n holl fryd, eilun yw.

Rhoddir blaenoriaeth i eilun yn ein bywyd a hynny ar drael rhoi sylw, amser,

adnoddau ac addoliad i Dduw. Wrth gwrs mae pawb sydd ddim yn credu yn Iesu Grist yn byw bywyd eilunaddolgar – er na fyddent byth bythoedd yn fodlon cydnabod hynny – oherwydd nid ydynt yn ystyried Duw o gwbl. Ond mae eilun yn slei ac yn llechwraidd ac yn aml yn llithro i mewn i



fywyd Cristion fel ei fod yn fwy parod i roi blaenoriaeth iddo nac i Dduw. Gofynnaf felly, beth yw fy eilunod i? Beth yw dy eilun di? Pa bethau y dylwn yn ai gael gwared ohonynt o'm bywyd, neu eu gwastrodi, er mwyn caru a gwasanaethu'r Arglwydd yn well?

Chwyn

Y mae rhai ohonoch, rwy'n siwr, wedi bod yn brwydro yn eich gerddi yn erbyn “Japanese knotweed”. Ryma ddywedir amdano ar wefan The Royal Horticultural Society.

“Although rather attractive, Japanese knotweed (Fallopia japonica) is a real thug as it spreads rapidly. In winter the plant dies back beneath ground but by early summer the bamboo-like stems shoot to over 2.1m (7ft), suppressing all other growth. Eradication requires steely determination as it is very hard to remove by hand or with chemicals.”

Fel hyn mae eilunaddoliaeth yn ein calonnau ni. Gallwn aralleirio y dyfyniad uchod fel hyn. “Although rather attractive, idol worship (idolum adorare) is a real thug as it spreads rapidly, suppressing all other growth. Eradication requires faith in Jesus Christ.”

Ffug Bwysigrwydd

Mae eilun yn cymryd lle Duw ac yn cynnig gobaith ffug. Rhoddir ffug bwysigrwydd i bethau neu i bobl sydd wedi eu creu.

Mae'n digwydd o'n cwmpas yn ddyddiol ac yn effeithio'n niweidiol ar ein calonnau. E.e., er ein bod wedi cael llond bol arno, cymrwch D. Trump. Mae o wedi gaddo pethau mawr, na fydd yn gallu eu cyflawni, ac mae miliynau o bobl America wedi pleidleisio iddo yn y gobaith y bydd yn

Golygyddol

Tir Neb

Rhan o waith fy nhaid yn ystod y Rhyfel Byd cyntaf oedd mynd i Dir Neb er mwyn rhoi mesuriadau i'r magnelau saethu eu taflegrau at y gelyn. Lle perygl oedd Tir Neb, lle'r oedd bywyd yn ansicr, lle nad oedd llawer yn dychwelyd yn ôl yn fyw. Ni wyddai neb beth fyddai canlyniad mynd yno. Rhyfeddodd parhaus i fy nhaid weddill ei fywyd oedd bod Duw wedi ei waredu o'r fath erchylltra i ddychwelyd yn ôl gartref i Chwilog mewn un darn.



Alun Tudur

Penbleth

Heno - nos Fercher 1af Chwefror - fe bleidleisiwyd gyda mwyafrif llethol yn San Steffan i roi caniatâd i Lywodraeth gwledydd Prydain i fwrw ati gyda'r broses o adael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd hynny'n anochel yn sgil canlyniad y Refferendwm y llynedd. Fel un a bleidleisiodd yn frwdfrydig i aros yn Ewrop rwy'n dal mewn penbleth pam fod 17 miliwn o bobl wedi bwrw pleidlais i adael. Gwyddwn mai sefydliad amherffaith oedd yr UE, oedd angen ei ddiwygio ond mae'n amlwg fod llaweroedd o bobl wedi rhoi eu cas arno. Un o'm prif resymau dros aros oedd bod heddwch a chyd-ddealltwriaeth wedi bod rhwng y gwledydd fu'n rhan ohono am 70 mlynedd a'i fod wedi creu economi lled sefydlog. Ond wrth ymadael fe ymddengys ein bod yn camu i'r tywyllwch gan nad oes neb mewn gwirionedd yn gwybod beth fydd pen draw'r broses. Rydym yn camu i Dir Neb ac mae blwch Pandora wedi ei agor led y pen.



Cruglwyth o Gwestiynau

Bellach mae fy meddwl yn llawn ansicrwydd a chwestiynau. Rwyf wedi fy nadrithio yn llwyr yng ngeirwiredd y cyfryngau torfol a gwleidyddion gan eu bod yn fynych yn rhaffu celwyddau yng ngwisg rhith-wirionedd. Mae barn pobl yng ngwledydd Prydain wedi ei hollti yn ddwy, a gall hyn beri gwrthdaro cas yn nes ymlaen. Gynt gallai pobl gwyno am yr UE,

nawr bydd rhaid inni ganfod bai yn ein gilydd. I'r byd mawr y tu allan rydym yn ymddangos yn fewnblyg ac ynysig. Dyma rai o'r cwestiynau sy'n chwyrlio yn fy meddwl. A fyddwn yn mynd yn fwy hiliol tuag at bobl o genhedloedd eraill? Beth fydd yn y dyfodol i'n plant? Beth os bydd yr economi yn chwalu'n llwyr? Sut mae criw o filiwnyddion wedi llwyddo i berswadio trwch y boblogaeth i bleidleisio drostynt? Beth yw'r symudiad hwn? Cenedlaetholdeb Seisnig? Mynegiant o anniddigrwydd ôl Ymerodrol? A fydd meddylfryd Prydeinllyd unffurf, uniaith yn cael ei orfodi arnom? Beth fydd yn digwydd i'r cydweithio fu o fewn i'r Undeb Ewropeaidd ar faterion pwysig fel ffoduriaid, ymchwil gwyddonol/meddygol, cadwraeth ac addysg mewn prifysgolion? Beth fydd yn digwydd i'r economi gan ein bod yn tynnu allan o gytundeb i fasnachu'n rhydd gyda 500 miliwn o bobl? A beth am ein cenedl ni, Cenedl y Cymry? Beth ddaw ohonom? Tros y degawdau derbyniodd ein sector amaethyddol a'n hardaloedd tlotaf biliynau o bunnoedd gan Ewrop, beth ddaw ohonynt?

Teyrnas

Y gwir yw, dim ond wrth edrych yn ôl dros ysgwydd amser yn y dyfodol y deun yn wybod yr atebion i'r cwestiynau hyn. Ond daw geiriau J.J. Williams i'r meddwl. (Caniedydd 326)

Derfydd holl deyrnasoedd daear,
Ânt i lawr o un i un,
Ond ar ludw eu hadfeilion
Saif dy deyrnas Di dy Hun;
Arglwydd cu, caffer ni,
Oddi mewn i'th deyrnas Di.

Trwy'r cyfan cofiwn fel Cristnogion ein bod ni yn rhan o Deyrnas fwy, teyrnas dragwyddol, teyrnas ddi-sigl, teyrnas Dduw trwy'r Arglwydd Iesu. Tros y milenia gwelodd yr eglwys Gristnogol ymerodraethau, unbeniaid, systemau gwleidyddol yn dod ac yn mynd ond parhau y mae Teyrnas Dduw. Mae'r Efengyl Gristnogol yn rhoi'r llanast presennol yng nghyd-destun cariad a mawredd Duw. Ein cyfrifoldeb yw dod ac egwyddorion Teyrnas Dduw i fyd dryslyd a thoredig gan gyflwyno'r gobaith a'r cyfiawnder sydd yn Iesu. Byw yn ein cymunedau fel halen, dylanwadu ar y cylchoedd gwleidyddol fel goleuni. Camwn ymlaen felly i Dir Neb, gyda'n ffydd yn gadarn yn ein Harglwydd Iesu. Y mae gan Dduw ei gynllun hyd yn oed yn Nhir Neb a bydd yn dwyn ei ffridiau i ben doed a ddelo.

Nid bwyta ac yfed yw teyrnas Dduw, ond cyfiawnder a heddwch a llawenydd yn yr Ysbryd Glân. (Rhufeiniaid 14:17)

Alun Tudur

Cynhadledd Cymdeithas Annibynwyr y Byd

Cynhelir cynhadledd Cymdeithas Annibynwyr y Byd ym Mhrifysgol Stellenbosch ger Cape Town, De Affrica, 6-11 Gorffennaf eleni.

Gan fod y trefnwyr yn gwahodd pobl i gofrestru, gofynnir i'r sawl sydd â diddordeb i fynd yno i gysylltu â Thŷ John Penri cyn gynted â phosibl er mwyn i ni fedru anfon taflenni gwybodaeth a ffurflen gofrestru atoch.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Gymdeithas ac am y gynhadledd trwy ymweld â'r wefan theicf.org

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

SWYDDOG CYHOEDDIADAU A CHYNORTHWY-YDD

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn chwilio am unigolyn brwdfrydig ac egniol i weithio yn Nhŷ John Penri, Abertawe.

Gwahoddir ceisiadau gan rai sydd o argyhoeddiad Cristnogol, ac sy'n drwyadl ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg.

Ceir disgrifiad llawnach o'r swydd, amodau gwaith a chyflog, a ffurflen gais gan:

Yr Ysgrifennydd Gweinyddol,
Tŷ John Penri, 5 Axis Court,
Parc Busnes Glanrafon,
Bro Abertawe, ABERTAWE. SA7
0AJ

Ffôn: 01792-795888

e-bost: ann@annibynwyr.cymru

Dyddiad cau:

17 Chwefror 2017

Cynhelir y cyfweiliadau ar
2 Mawrth 2017